

## SOMERSET (TEULU), Raglan, Casgwent, a Troy, sir Fynwy, Cerrig-hywel, sir Frycheiniog, a Badminton, sir Gaerloyw

### CHARLES SOMERSET iarll Worcester (Somerset) 1af (1460? - 1526)

Mab anghyfreithlon Henry Beaufort, 3ydd duc Somerset, a ddiennyddiwyd gan blaid y lorcaid (1463). Yr oedd yn bleidydd cryf i [Harri Tudur](#) a'i defnyddiodd, o'r adeg y dechreuodd deyrnasu fel [Harri VII](#), o gylch y llys a thros y môr, gan ei dderbyn yn aelod o'r Cyfrin Gyngor ar 14 Chwefror 1505. Y mae ei ddyrchafiad yng Nghymru yn dyddio o adeg ei briodas (2 Mehefin 1492) ag Elizabeth, merch ac aeres [William Herbert](#) (bu farw 1491), ail iarll Pembroke o'r greadigaeth gyntaf, a iarll Huntingdon wedi hynny; yn rhinwedd y briodas hon, 'jure uxoris,' mabwysiodd Somerset, yn 1504, y teitl barwn Herbert Raglan, Chepstow a Gower. Yn y cyfamser (23 Ebrill 1496) cawsai ei wneuthur yn gomisiynwr 'array' dros Gymru, a rhwng 1503 a 1515 rhoddwyd iddo swydd stiward prif arglwyddiaethau y Goron yn y rhannau hynny o'r wlad a ddaeth wedyn yn siroedd Mynwy, Morgannwg, Maesyfed, a Threfaldwyn ac arglwyddiaeth Ruthinland, ynghyd â swydd cwnstabl y cestyll a oedd yn yr arglwyddiaethau hynny; ychwanegodd [Harri](#) (a oedd yn parhau i ddefnyddio Somerset dros y môr) at y rhai uchod deitl siryf Glamorgan a Morgannwg (1509) a phrif fforestydd Glamorgan, Rhuthyn, a Threfaldwyn (1515). Yn dâl am ei wrhydri yn Tournay (1513) gwnaethpwyd ef yn iarll Worcester (10 Tachwedd 1513 neu 1 Chwefror 1514). Rhoes siarter i Chepstow ar 2 Rhagfyr 1525. Bu farw ar 15 Ebrill 1526 a chladdwyd ef yng nghapel Beaufort yn Windsor.

### HENRY SOMERSET ail iarll Worcester (Somerset) (bu farw 1549)

Dilynwyd Charles Somerset yn y rhan fwyaf o'i swyddi Cymreig gan ei fab hynaf, Henry. Treiddiodd dylanwad y teulu i orllewin Cymru pan ddaeth ef yn stiward a changhellor Aberhonddu ac yn gwnstabl ei chastell (26 Mai 1523); gwnaethpwyd ef hefyd yn brif farnwr teithiol Casnewydd-ar-Wysg, Gwynllwg, a Machen, sir Fynwy (22 Gorffennaf 1534) a Glamorgan i gyd; cadarnhawyd ei hawliau yn y cylch hwn mewn modd pendant gan Ddeddf Uno Cymru a Lloegr (27 Henry VIII, cap. 26, adran 33). Cafodd hefyd, pan ddiwyddwyd y mynachlogydd lleiaf, y tir y safai abaty Tintern arno. Ychydig o enwogrwydd gwleidyddol ei dad oedd yn perthyn iddo y tu allan i Gymru, fodd bynnag. Bu farw 26 Tachwedd 1549 a chladdwyd ef yn Chepstow; coffeir ef mewn marwnad gan [Lewys Morgannwg](#).

### WILLIAM SOMERSET 3ydd iarll (1526 - 1589)

Aer Henry Somerset. Yr oedd ganddo safle o urddas yn llysoedd Edward VI, Mari, ac Elisabeth; ymunodd yn y cynllwynion yn erbyn 'Protector' Somerset ac yn ei brawf, gan ddefnyddio yn y symudiadau hyn wasanaeth [William Cecil, arglwydd Burghley](#) wedi hynny. Yr oedd hefyd yn un o farnwyr dug Norfolk (1572) a Mari frenhines y Sgotiaid (1586), aeth i Baris ar neges arbennig yn 1573, a chynullodd y milwyr gwladol yn erbyn y bygwth gan Sbaen yn 1588. Rhoddwyd ef ar gyngor goror Cymru yn 1553 ac yr oedd yn gomisiynwr 'musters' yn sir Fynwy yn 1579. Eithr pan adfywiwyd iarllaeth Pembroke (1551) ym mherson [William Herbert](#) (bu farw 1570), aeth rhan fwyaf y swyddi a ddelid gan iarll Worcester 1af a'r ail iarll yn Ne Cymru a'u holl ddylanwad yng nghanolbarth a Gogledd Cymru yn ôl eilwaith i deulu [Pembroke](#). I feirdd Gwent, fodd bynnag, yr oedd 3ydd iarll Worcester yn 'tew Wilym o Went' a dywedodd [Dafydd Benwyn](#) amdano mewn marwnad 'traw yn un a Harbord trwy'n iaith.'

### EDWARD SOMERSET 4ydd iarll Worcester (1553 - 1628)

Mab hynaf y 3ydd iarll. Llwyddodd i adennill peth o ddylanwad y teulu yng Nghymru; yr oedd hefyd yn wr mawr mewn ystyr wleidyddol yn Lloegr. Gwnaethpwyd ef yn aelod o gyngor goror Cymru y flwyddyn ar ôl iddo ddyfod yn iarll (16 Rhagfyr 1590), a phan fu [ail iarll Pembroke](#) farw yn 1601 llwyddodd i drefnu nad oedd siroedd Mynwy a Morgannwg (lle y daeth yn arglwydd raglaw, 17 Gorffennaf 1602) i'w cynnwys yn y comisiwn a roddwyd i olynydd [Pembroke](#) yn Llwydlo. Yn wahanol i Brotestaniaeth filwriaethus ei gydymgeiswyr pwerus, parhaodd ef i fod yn 'stiff Papist' o dan Elisabeth, a ymddiriedai ynddo ac a roes iddo, wedi cwmp [ail iarll Essex](#) - cymerth Somerset ran ym mhrawf Essex - swydd meist'r ceffylau'r frenhines a ddelid gan Essex ynghyd â sedd ar y Cyfrin Gyngor (29 Mehefin 1601). Ymddengys iddo gydffurfio o dan Iago I (Hist. MSS. Com., *Cecil*, xvii, 304-6), a'i rhoes ar gomisiynau arbennig - i ddifodi Pabyddiaeth yn Ne Cymru a'r goror (Mai-Awst 1605), i alltudio'r Jesiwtiaid (5 Medi 1604), i brofi cynllwynwyr Brad y Powdr Gwn (1605-6) a Raleigh (Awst 1618) - ac a'i gwnaeth hefyd yn arglwydd y sêl breifat (2 Ionawr 1616) ac yn farnwr yn llys y 'requests' (7 Chwefror 1621). Yr oedd yn 'politique' o flaen pob dim; cyflogodd Gymro o Brotestant, Dr. Thomas Prichard, un o ohebwy'r [James Howell](#), yn athro i'w blant, tra ar yr un pryd caniatâi i [Robert Jones \(1546 - ?\)](#), 'Superior' yn urdd y Jesiwtiaid, fyw o dan nodded ei wraig yn Raglan; eithr dilynodd ei blant i gyd grefydd eu mam. Dywedodd [Thomas Williems](#) o Drefriw, y geiriadurwr, amdano: 'Ni rusia ddywedyd Cymraec, a'i hymgeleddu, a'i mawrhâu yn anwylygu Frytanaidd.'

### HENRY SOMERSET 5ed iarll, ardalydd 1af Worcester (c.1577 - 1646)

Ail fab (eithr yr hynaf a oroesodd) y 4ydd iarll. Cafodd ei addysg yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen. Fel arglwydd Herbert o Chepstow, gwnaethpwyd ef yn ddirprwy-raglaw sir Fynwy (17 Gorffennaf 1602), rhoddwyd ef ar gyngor goror Cymru (1617), a bu yn gysylltiol â'i dad, yn dal swyddi arglwydd-raglaw siroedd Morgannwg a Mynwy o 2 Rhagfyr 1626. Protestant ydoedd yn ei ieuencid cynnar, ond dychwelodd at hen ffydd y teulu pan oedd yn teithio yn Ewrop (yn gwneuthur y 'grand tour'); eithr lluddiwyd ei ymdrechion i ddilyn esiampl ei dad - sef i ddal y ddysgl yn wastad rhwng y ddwy grefydd a broffesid yn ei

gartref gan ei wasanaethyddion - gan wres cynyddol y ddwyblaid. Er mwyn boddio teimladau'r Protestaniaid perswadiodd Siarl I ef, pan ddaeth iarll Bridgewater yn llywydd y cyngor yn Llwydlo (1631), i drosglwyddo ei swyddi fel arglwydd-raglaw i'r llywydd newydd (11 Gorffennaf), a chadwodd ef rhag llenwi swyddi cyhoeddus, gan adael iddo yn wastadol, fodd bynnag, ddeall ei fod yn teimlo'n serchus tuag ato, a rhoddi iddo, yn ystod y 'Bishops' wars,' ollyngdod ynglyn â rhai deddfau arbennig, yn cynnwys yr hawl iddo ef (ac i'w fab) i ddwyn arfau (25 Mawrth 1639). Yr adeg hon daeth gorchmynion pellach oddi wrth y brenin i'r dirprwy-raglawiaid yn peri iddynt eu gosod eu hunain o dan awdurdod a ddeuai iddynt o Raglan (17 Gorffennaf 1640) ynghyd â'r negesau llafar, llawn o ddirgelwch, a ddaeth at Worcester trwy ei fab (isod) wedi hynny (Awst 1641 - Mai 1642), a pharodd hyn oll i bobl gredu'r sibrydion a oedd ar gerdded fod byddin Babyddol Gymreig ('Welsh popish army') i ymuno â goresgynwyr Pabyddol o Iwerddon; a sonniodd llawer am y peth pan oeddid yn dadlau yn Nhy'r Cyffredin (yn y Senedd Faith) yn achos Strafford; yr oedd aelodau seneddol o Gymru yn sôn yn ddifloesgni am eu hofnau - yr oeddent hwy yn ddrwgdybus iawn o Raglan oherwydd i dy i'r Jesiuitiaid gael ei sefydlu yn Cwm (10 Tachwedd 1637) o dan nawdd Raglan a bod 'gwrthodwyr' adnabyddus fel [Hugh Owen](#), Gwenynog (ganwyd c. 1575), ysgrifennydd Worcester, a'r bardd [Gwilym Puw](#), yn tyrru yno.

Pan dorrodd y Rhyfel Cartref allan bu llawer o dyrru i blaid Raglan gan gymdogion y teulu - yr oedd teulu [Pembroke](#) wedi colli ei ddylanwad ymhlith y bobl hyn oherwydd natur wibiog ei wleidyddiaeth a'i duedd i gadw draw rhagddynt, tra yr oedd Worcester, ar y llaw arall, yn cadw draw rhag y Llys ac yn byw, megis patriarch, ymysg y bobl hyn. Gwnaeth Charles ef yn ardalydd (2 Tachwedd 1642), addawodd iddo stadau [Pembroke](#) ym Mynwy (2 Rhagfyr 1642), a dewisodd ef yn llywiauwr Raglan (20 Gorffennaf 1644); yn gyfnewid am hyn caniatodd Worcester i'w fab roddi ffortiwn y teulu, a oedd yn werth tua £24,000 y flwyddyn, at wasanaeth y brenin. Eithr parodd cynlluniau ei fab (isod), a oedd yn peri i bobl llynu'n gryf wrth eu hen ofnau y byddai glaniad o Iwerddon yng Nghymru, i'r teimlad lleol droi yn erbyn y teulu unwaith yn rhagor (yn enwedig ymysg y bobl yr oedd iddynt gysylltiad â theulu [Pembroke](#)) fel y gwelwyd pan ddaeth y brenin ddwywaith i Raglan (Gorffennaf a Medi 1645) ar ôl brwydr Naseby i geisio codi rhagor o filwyr. Yn gynnar yn 1646 gwarchaewyd yn glos ar Raglan a bu Worcester, yn rhinwedd ei swydd fel arglwydd-raglaw sir Fynwy, yn trefnu i amddiffyn y castell ac yn talu treuliau'r amddiffyn hwnnw â'i arian ei hun; ar yr un pryd byddai'n gwneuthur ambell gyrch ar Gaerlleon (26 Ionawr) a rhai o ganolfannau eraill y Pengryniaid yn y gymdogaeth. Wedi iddo, mewn modd trahaus, wrthod galwadau i ildio a wnaethpwyd arno gan [Thomas Morgan](#) (1604 - 1679) ym mis Mehefin a chan Fairfax ym mis Awst, ildiodd i Fairfax ar 17 Awst ar delerau a drefnai fod y gwarchodlu yn ddiogel eithr a'i gosodai ef ei hun at drugaredd y gelyn. Yr oedd eisoes yn hen ac yn wael, a bu farw yn garcharor, c. 18 Rhagfyr 1646; rhoddwyd iddo gladdedigaeth wladwriaethol (yn ôl gwasanaeth y Presbyteriaid) yng nghapel Beaufort yn Windsor. Buasai ei gaplan, [Thomas Bayly](#), gydag ef hyd y diwedd, a chyhoeddodd hwnnw, yn 1649, hanes dadleuon ar grefydd a fu rhwng yr ardalydd a'r brenin yn Raglan o dan y teitl *Certamen Religiosum*; cyhoeddodd hefyd, yn 1650, *Worcester's Apothegms*. Disgrifia Anthony Wood (*Athen. Oxon.*, iii, 200) ef fel 'a great compromiser, a wise man, and above all a person of great and sincere religion.' Yn ôl Clarendon credid ei fod 'the greatest Money'd Man of the Kingdom'; yr oedd symiau mawr o'i arian wedi eu gosod ar fenthyg yn nhair sir Brycheiniog, Caerfyrddin, a Phenfro, heblaw aur a thlysau a guddiasid at wasanaeth ei wyr, dug Beaufort wedi hynny; cymerodd y Senedd feddiant o'i eiddo o 1645 ymlaen er mwyn talu treuliau y rhyfel yn Iwerddon a defnyddiwyd ei gartrefi yn Llundain at wasanaeth y wladwriaeth.

### **EDWARD SOMERSET ail ardalydd Worcester (ac iarll Glamorgan) (1601 - 1667)**

Mab hynaf yr ardalydd cyntaf. Magwyd ef yn Gatholig a chafodd ei addysgu dros y môr - nid yng Ngholeg Magdalen fel ei dad a'i bedwar ewythr. Pan oedd yn arglwydd Herbert ('o Raglan') gosodwyd ef ar gyngor goror Cymru (12 Mai 1633), gwnaethpwyd ef yn ddirprwy-raglaw yn sir Fynwy (Tachwedd 1635), a rhoddwyd iddo gomisiwn godi milwyr yn erbyn y Sgotiaid yn y 'Bishops' Wars.' Achosodd hyn ddrwgdeimlad ymysg Cymry Protestannaidd - drwgdeimlad a gyrhaeddodd ei uchafbwynt pan dorrodd y gwrthryfel allan yn Iwerddon ym mis Tachwedd 1641 (serch i Herbert gynnig rhoddi arian tuag at ei ddiddymu) ac eilwaith, pan dorrodd y Rhyfel Cartref allan, ac y rhoes Siarl ef ar gomisiwn codi milwyr yn sir Fynwy. Yn ôl amcan-gyfrif a wnaeth y rhoddwr yn nes ymlaen, 'benthyciodd' i'r brenin tua £100,000 at godi a chynnal milwyr. Datganodd y Senedd ei fod yn 'elyn y cyhoedd' (Medi 1642), a mynnodd hi, pan oedd yn trin telerau gyda'r brenin yn nes ymlaen (e.e. yn Chwefror 1643) gael ei symud o'i swydd. Cynigiodd gadw sir Fynwy rhag pleidio'r naill ochr na'r llall, a symudodd stôr adnoddau tân milwrol y sir o Drefynwy (ei dref ef ei hun) i Gaerlleon, yn nhiriogaeth [Pembroke](#) (symudodd ef y stôr i Raglan yn fuan wedi hynny), eithr ni thyciodd hyn ddim gyda'i elynion, ac aeth rhagddo i godi, ar ei gost ei hun, ac arwain, a 'dodrefnu,' 1,500 o wyr traed a 500 o wyr ar feirch heblaw gofalu am warchodluoedd yn Raglan, Casgwent, Trefynwy, a Chaerlleon. Eithr yr oedd i ffwrdd (a'i frawd, yr arglwydd John Somerset, yn parhau yn ddiegni) pan ddinistriwyd y rhai hyn gan Waller (24 Mawrth 1643). Gwnaeth ei orau i gasglu gweddillion y gwarchodluoedd ynghyd i ymdrechu rhwystro Waller rhag mynd rhagddo i lwyddo ymhellach yn Ne Cymru, eithr yr oedd cymaint o eiddigedd tuag ato ymhlith ei gydweithwyr oblegid ei grefydd a'r rhyddid mawr a ganiatâwyd iddo yn ei gomisiwn diweddaraf (4 Ebrill 1643) nes peri iddo roi i fyny'r hawl i fod yn bennaeth milwrol yn Ne Cymru o blaid gwasanaeth yn Iwerddon; yno byddai ei grefydd a'i wraig Wyddelig (merch iarll Thomond) o gymorth iddo.

Yn ôl dogfen dan y dyddiad 1 Ebrill 1644, awdurdodwyd ef i godi dwy fyddin o 10,000 yr un yn Iwerddon (y naill i lanio yng Ngogledd Cymru a'r llall yn y De), a chodi byddin arall ar y Cyfandir, trwy drefniant â'r Llywodraethau Catholig, i lanio yn King's Lynn. I'r diben hwn, rhoddwyd iddo alluoedd a oedd bron yn frenhinol (e.e. creu barwniaid), y teitl o iarll Glamorgan

(ond ni chadarnhawyd hwn), a'r addewid y câi ddugiaeth Somerset. Ond nid yw haneswyr yn unfarn ar ddilysrwydd y ddogfen hon (gweler Gardiner yn *E.H.R.*, ii, 687-704 ac yn *Civil War*, ii, 166 et seq., a Round yn *Studies in Peerage*, 367-434), nac ychwaith ar faint yr awdurdod a roddwyd iddo i helpu Ormond yn ei drafodaethau a'r cynghreiriaid Catholig yn Iwerddon. Yn fuan ar ôl iddo lanio yn Iwerddon (Mehefin 1645) cafodd addewid o help milwrol (cytundebau 25 Awst, 3 Medi, a 20 Rhagfyr) yn gyfnewid am addewidion o'i ran yntau a oedd mor eang eu natur nes y bu i Ormond ei gymryd i'r ddalfa fel bradwr (26 Rhagfyr) ac i Siarl ei ddi-arddel (29 Ionawr 1646) pan ddeallwyd beth oedd telerau y trefniant. Pan ryddhawyd ef ceisiodd achub y blaen ar Ormond trwy weithio tros Siarl (a oedd yn parhau i fod mewn cyswllt ag ef) gyda chynrychiolydd y pab, eithr ni pharhaodd gyda hyn yn hir eithr mynd i Paris ym Mawrth 1648. Ad-dalodd y Senedd iddo trwy ddatgan ei fod yn ei alltudio a chynnwys ei stadau yng ngweithred seneddol 1651 a oedd yn delio â thiroedd 'delinquents,' eithr gydag un eithriad, sef cadw at wasanaeth yr aer, pan ddeuai'r stad i'w feddiant, y tiroedd hynny nas gwerthwyd eisoes (e.e. gwerth £1,700, yn cynnwys Casgwent a Gwyr), a roddasid i Cromwell, a gadarnhaodd, yntau, yn ei dro, y prydlesoedd a ddelid er 1648 gan y [cyrnol Philip Jones](#) a grantiau llai i Hugh Peters. Wedi iddo orfod dychwelyd gartref ym mis Gorffennaf 1652, oblegid ei dlodi, carcharwyd Glamorgan yn Nhwr Llundain, o 28 Gorffennaf hyd nes y'i rhyddhawyd, dan feichiafon, ar 5 Hydref 1654, wedi iddo yn y cyfamser (26 Gorffennaf 1653) gael caniatáu iddo, gan Cromwell, bensiwn o £3 yr wythnos yn deillio o stadau Raglan. Wedi'r Adferiad bu pwyllgor o Dy'r Arglwyddi yn ystyried ei hawl i ddugiaeth Somerset (Medi 1660), eithr dewisodd yntau beidio a pharhau i'w hawlio am na allai gydsynio â'r amodau a oedd yn ddealedig ynglyn â'r cais. Yr oedd iddo fwy a fynnai a'i eiddo personol; maentumiaid ef iddo golli o'r eiddo hwnnw swm yn agos i filiwn o bunnau - y colledion a gawsai yng nghyfnod yr 'Interregnum,' ei lafur di-dâl yn Iwerddon a lleoedd eraill, heblaw'r arian benthyg y methodd y Goron eu talu yn ôl. Ni waredwyd mohono ychwaith rhag cael ei flino, yn ei fisoedd olaf, gan fenthycwyr ac eraill, gan ei ymdrechion gobeithiol fel dyfeisydd a ddisgrifir yn ei *Century of Inventions*, a ysgrifennwyd yn 1655 ac a gyhoeddwyd yn 1663. Bu farw yn sydyn, yn Llundain, 8 Ebrill 1667, a chladdwyd ef yn eglwys Raglan. Barn Clarendon amdano (ac nid oedd ef yn dyst cyfeillgar) oedd ei fod yn ddyn a gerid gan lawer ac na chaseid ond gan ychydig iawn.

### HENRY SOMERSET 3ydd ardalydd Worcester a dug 1af Beaufort (1629 - 1700)

Mab hynaf yr 2il ardalydd. Credid iddo fod yn gwasnaethu ei dad yn yr ymladd o gylch Caerloyw yn 1643, eithr tynnwyd yn ôl, ym mis Mehefin 1651, y cyhuddiad o fod yn 'delinquent' a ddygwyd yn ei erbyn ym mis Rhagfyr 1650, oherwydd, y mae'n debyg, ei fod bellach wedi troi'n Brotestant ac wedi dechrau dygymod â'r drefn newydd. Yn ddiweddarach yn 1651 bu'n trefnu i werthu i [cyrnol Philip Jones](#) werth £1,600 o stadau'r teulu yn Sir Forgannwg, gan gael ei dad i gydsynio yn 1656. Yr oedd ar delerau da gyda Cromwell (a oedd yn caniatáu iddo dderbyn arian o'i diroedd yn Sir Forgannwg) ac o blaid y Ddiffynwriaeth - gan fyned mor bell hyd yn oed â defnyddio'r dull newydd sifil o weinyddu priodasau - eithr nid oes dystiolaeth i'r gred iddo gynrychioli sir Frycheiniog ([Williams](#), *The parliamentary history of the principality of Wales*) na Worcester (*D.N.B.*, liii, 242) yn Senedd 1654. Wedi marw Oliver Cromwell bu'n gweithio i gael teulu Stuart yn ôl i'r orsedd, gan roddi cymorth i wrthryfel Booth ym mis Gorffennaf 1659 (a chael ei garcharu am hyn yn Nhwr Llundain hyd fis Tachwedd) a chynrychioli sir Fynwy yn Senedd y 'Convention' (Ebrill 1660), a'i danfonodd ef, yn un o 12 comisiynwr, i hebrwng Siarl II adref o Holand. Gallodd sicrhau (mewn modd a gyfrifwyd gan ei dad yn anonest) i diroedd y teulu a aethai i feddiant Cromwell ddyfod yn ôl i feddiant y teulu eithr gan na ellid byw yn Raglan mwyach symudodd gartref y teulu i Badminton (a etifeddasid o gangen gyfochrog o'r teulu). Bu'n byw yno gyda rhwysg brenhinol, gan groesawu Siarl II i'w blasty yn 1663, lago II yn 1685, a William III yn 1690. Eithr hyd ddiwedd y 19eg ganrif yr oedd naw rhan o bob deg o diroedd y teulu yng Nghymru, gyda dau blasty yn sir Fynwy ac un yn sir Frycheiniog, a hawliau a breiniau maenorol mewn tair sir, tra yr oedd eu hen gydymgeiswyr, teulu [Pembroke](#), oherwydd eu modd gwastrafflyd o fyw, yn gorfod gwerthu eu tiroedd yng Nghymru. Gwelir adnewyddiad urddas a dylanwad teulu Somerset nid yn unig pan oedd yr arglwydd Herbert yn parhau i gynrychioli sir Fynwy yn y Senedd hyd y bu iddo etifeddu fel ardalydd (1667), eithr hefyd yn y dylanwad lleol nerthol a barodd iddo gael ei ddewis (30 Gorffennaf 1660) yn arglwydd-raglaw sir Fynwy, sir Gaerloyw, a sir Henffordd ac yn gapten milisia, a'r hawl ganddo hefyd i ddodi gwarchodlu yng Nghasgwent. Ar 19 Mawrth 1672 daeth yn llywydd cyngor goror Cymru, yn arglwydd-raglaw tywysogaeth Cymru i gyd a'r goror, yn aelod o'r Cyfrin Gyngor (17 Ebrill), gan gadw'r swydd honno pan aildrefnwyd y Cyfrin Gyngor ar ffurf gynrychioladol yn 1679. Anaml iawn yr ymwelai â Llwydlo; gwnâi ei waith fel llywydd o'i gartrefi yn Badminton neu Chelsea trwy ohebu â'i ddirprwy-raglawiaid. Gwnaeth ddefnydd o'i awdurdod, megis y gwnaethai ei hynafiaid, i ymladd yn erbyn pleidiau a phleiddgarwch ac i gryfhau awdurdod y Goron a'r Eglwys, er nad oedd yn rheoli'n unbenaethol (gweler e.e. ei wrthwynebiad i ddibennu'r Senedd yn 1679, yn *E.H.R.*, xxxvii, 50). Fel gyda'i hynafiaid hefyd, daeth amryw o bobl yn ddrwgdybus ohono, i raddau helaeth, oblegid ei berthnasau Pabyddol yng nghastell Powis a'i gyfeillgarwch â'r dug Iorc, lago II wedi hynny (*Hist. MSS. Comm.*, 14 th R., ix, 370; *Ormond*, n.s. iv, 459; vi, 262; *Popham*, 258).

Yn ei gymdogaeth ei hun fe'i gwrthwynebid yn gryf gan [John Arnold](#) a [Syr Trevor Williams](#), gwyr yr oedd ganddynt achosion cwyno, y naill ynghylch Fforest Wentwood (lle yr oedd yr ardalydd yn ddiwyd i'w ryfeddu gyda'r gwaith o doddi haearn), a'r llall ynghylch gwarchodlu Casgwent. Tynnodd Worcester enw [Arnold](#) ac enwau saith eraill o'i elynion allan o restr ynadon heddwch sir Fynwy yn 1678 a threfnodd i symud [Williams](#) a 24 eraill o ynadon Cymreig yn ystod 'carthiad' a wnaethpwyd gan y Cyfrin Gyngor yn 1680. Talodd [Arnold](#) y pwyth yn ôl trwy drefnu i gael bwrdeisdrefi Casnewydd-ar-Wysg a Brynbuga i wrthweithio yn erbyn gadael iddo ddefnyddio Trefynwy fel bwrdeisdref 'boced' a thrwy hynny lwyddo i ddiseddu ei fab (ar ôl petisiynu, 26 Tachwedd 1680) fel cynrychiolydd seneddol y fwrdeisdref, tra yr oedd [Williams](#) wedi cymryd y sedd dros y sir oddi arno yn yr etholiad ddiwethaf. Yn gynnar yn 1681 ymunasant â [Syr Rowland Gwynne](#) i wthio trwy Dy'r Cyffredin

'erfyniad' yn gofyn am iddo gael ei alltudio o'r llys a'r Cyfrin Gyngor a cheisio hefyd (eithr methu) gael pasio mesur seneddol gyda'r amcan o 'taking away Lord Worcester's Ludlow court for Wales' fel rhywbeth a oedd yn 'too great a trust.' Ateb Siarl II oedd gwneuthur Worcester yn ddug Beaufort (2 Rhagfyr 1682), tra y rhoes y dug newydd daw ar [Williams](#) ac [Arnold](#) trwy gael iawn trwm yn eu herbyn am 'scandalum magnatum' (Tachwedd 1683) ac enillodd ei fab (a oedd yn awr yn ardalydd Worcester) ei sedd yn sir Fynwy yn ôl a'i chadw hyd 1688. Er mwyn cadarnhau effaith ei fuddugoliaeth aeth Beaufort ar daith ('progress') fel cynrychiolydd y brenin trwy'r wlad yr oedd yn llywydd ei chynghor (14 Gorffennaf - 21 Awst 1684). Adnewyddodd Iago II y llywyddiaeth (28 Mawrth 1685), gwnaeth Beaufort yn gyrrnol byddin o wyr traed, a gofynnodd am ei gymorth i rwystro math o wrthwynebiad gwleidyddol yn sir Ddinbych ym mis Mawrth 1685, i gynnal Bryste yn erbyn duc Monmouth ym mis Mehefin, ac i gael Cymru i dderbyn y Declarasïwn Goddefiad yn 1687; eithr aflwyddiant fu cyfarfod o wyr tiriog lleol a gynullwyd i Lwydlo gyda'r amcan hwnnw a bu raid 'carthu' rhagor o ustusiaid heddwch, swyddogion milisia, a chynrychiolwyr bwrdeisdrefi. Er i'r dug alw'n ôl y gorchymyn i 'garthu' (Medi hyd Hydref 1688) a'i fod yn dadlau y dylid galw'r Senedd ynghyd (Rhagfyr), methodd Cymru yn y diwedd ei alluogi ef i gyflawni'r addewid a wnaethai ef y codid 10,000 o wyr ynddi i ymladd yn erbyn William o Orange; ni lwyddodd ef ychwaith, y tro hwn, i ddal Bryste dros Iago. Er ei fod ef o blaid dewis William i deyrnasu dros arall ('regent') yn hytrach nag fel brenin, fe gymerth y llw iddo fel William III, fodd bynnag, a hynny braidd yn ddiweddar, ym mis Mawrth 1689, eithr rhoddwyd ei swydd yn Llydlo i iarll Macclesfield; ychydig o ran a gymerth mewn gwleidyddiaeth a'r ychydig hwnnw gyda'r wrthblaid. Bu farw yn Badminton, 21 Ionawr 1700, a chladdwyd ef yng nghapel Beaufort yn Windsor. Collodd ei fab hynaf, CHARLES SOMERSET (1660 - 1698), 4ydd ardalydd Worcester, ei gomisiwn yn y fyddin (Mai 1687) am helpu i lunio'r petisiwn gan y Senedd (Tachwedd 1685) a anogai ddiswyddo 'popish officers'; fe ymunodd â'r tywysog Orange yn gynnar ym mis Rhagfyr 1688, eithr cafodd ei ladd mewn damwain i'r cerbyd yr oedd yn trafaelio ynddo yng Nghymru ym mis Gorffennaf 1698, ac aeth y ddugiaeth i'r ail fab, HENRY SOMERSET (1684 - 1714), yr ail ddug felly; yr oedd ef yn Dori mwy eithafol eithr cadwodd draw rhag bywyd gwleidyddol nes y daeth adwaith Toriaidd 1710.

Er na welwyd mo bwysigrwydd mawr y dug cyntaf trwy gydol Cymru yn cael ei adnewyddu gan ei olynwyr, yr oedd maint a chynnydd parhaol tiroedd y teulu a'u cyfoeth yn peri bod eu dylanwad yn parhau yn ne-ddwyrain y wlad. Y mae'r teulu, fel rheol, wedi rhoddi arglwydd-raglafiaid i sir Fynwy, ac weithiau i sir Frycheiniog hefyd, heblaw eu bod yn aelodau seneddol Toriaidd o 1805 hyd 1874, heb ball, dros sir Fynwy; rhoes y bwrdeisdrefi hefyd y cyfle cyntaf, o 1799 hyd 1831, i aelodau'r teulu i fyned i'r Senedd. Yn 1799, fodd bynnag, llwyddodd Casnewydd-ar-Wysg, a oedd yn awr yn datblygu mewn ystyr fasnachol a'r dylanwad dugaidd bob amser yn llai arni nag ar y bwrdeisdrefi eraill, gyda chymorth [Syr Charles Morgan](#), Tredegar, i wrth-ddadlau hawl y 5ed dug, HENRY SOMERSET (1744 - 1803), i fod yn berchennog ei chei a thaflodd Trefynwy hithau hefyd ymaith ddylanwad arglwyddiaethol y 6ed dug, HENRY CHARLES SOMERSET (1766 - 1835), yn 1818. Rhoddwyd her i'w fab ef yn etholiad y fwrdeisdref i Senedd 1820 eithr yn ofer - fe gofir yr etholiad arbennig hon oblegid i [John Frost](#), a ddaeth yn adnabyddus wedi hynny fel siartydd, bleidio'r her; yn 1831 diddymwyd dylanwad teulu Beaufort yn y bwrdeisdrefi gan yr ymgeisydd a oedd o blaid y gwelliannau a gafwyd yn y Reform Act (1832), sef [Benjamin Hall](#), a ddaeth yn arglwydd Llanover yn ddiweddarach; collodd [Hall](#) ei sedd wedi i betisiwn gael ei ystyried, y mae'n wir, eithr etholwyd ef am yr ail dro yn 1832. O dan nawdd y ddau ddug hyn aeth gweithio haearn a glo ar stadau Beaufort, gwaith a ddygasai incwm cyson i'r stad er yr 17eg ganrif, ar gynnydd yn gyflym. Ychwanegwyd at ddylanwad y teulu yn sir Fynwy pan brynodd y 5ed dug arglwyddiaethau Usk a Trelech, hen arglwyddiaethau [teulu Pembroke](#). Yn 1901, fodd bynnag, gwerthodd HENRY ADALBERT WELLINGTON FITZROY SOMERSET (1874 - 1924), y 9fed dug, stad Raglan (ar wahân i'r castell) i'r Goron, a'r breiniau maenorol i'w berthynas, yr arglwydd RAGLAN, wyr FITZROY JAMES HENRY SOMERSET (1788 - 1855), yr arglwydd Raglan 1af, mab ieuengaf y 5ed dug Beaufort; enillodd yr arglwydd Raglan 1af enwogrwydd fel milwr, bu'n gwasnaethu o dan y dug Wellington yn y rhyfeloedd yn Sbaen ac yn Waterloo, priododd or-nith y dug hwnnw, dilynodd ef fel pennaeth ('commander-in-chief') byddin Prydain, a bu'n arwain lluoedd Prydain yn rhyfel y Crimea hyd nes y bu farw ar faes y frwydr ar 28 Mehefin 1855.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r ffynonellau a enwir yno

*A History of Monmouthshire*, ii, 13-31, 132

Williams, *The History of Monmouthshire... Illustrated and ornamented by views of its principal landscapes, ruins, and residences*, by J. Gardnor... Engraved by Mr Gardnor and Mr Hill (Llundain 1796), 270, a'r atodiad, 11, 132-7, 151-2, 176-82

J. F. Marsh, *Annals of Chepstow Castle* (Exeter 1883), 198-262

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, 12th R., ix, 1-115, a chyfeiriadau amrywiol yn 3rd R., 5th-7th R., 8th R., 9th R., iii (gweler t. 17), 11th R., ii, v; 12th R., vii; 14th R., ix; Cecil, vii, viii, x, xvii; Portland, i, iii; Ormond, n.s., iv, vi

*Yn y llyfryddiaeth ar t. 864 cyfeiria hwn at y gyfres House of Lords yn adroddiadau'r 'Historical Manuscripts Commission.'*

n.s., ii, iii

Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, iv, 470-2

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20), iii, 199-204

Clarendon, *The history of the Rebellion and Civil Wars in England begun in the year 1641* (Oxford 1888), ii, 285-93

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1946-7, 60, 64, 71-2, 81-2; 1948, 17, 40-1, 53-5, 82, 467, 473

C. Heath, *Historical and descriptive accounts of the ancient and present state of Ragland Castle, and a variety of other particulars, deserving the stranger's notice, relating to that much admired ruin, and its neighbourhood* (Mynwy 1797)

W. R. Williams, *[The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895](#)* (Brecknock 1895), 126-7, 129, 131-2, 136-40

*Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643–1660*, i, 85, 185, 205-6, 603; iii, 1706-15

*Calendar of the Committee for Advance of Money, 1642–56* (1888), i, 47, 208-17; ii, 210-14, 637-8

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642–1660* (London 1911), ii, 542

Thomas Carlyle, *Oliver Cromwell's letters and speeches with elucidations* (New York 1849), lvi, lx, clxxi

Roger North, *The lives of the Norths [The lives of the Right Hon. Francis North, Baron Guildford, etc.]* (Llundain 1972), i, 171

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1924

David Williams, *John Frost, A Study in Chartism* (1939), pen. i, ii

D. J. Davies, *The Economic History of South Wales prior to 1800* (1933), 138

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 249-56

N.L.W. Badminton manorial deeds, *Llawysgrifau Penrice a Margam yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* L. 170-1, 201-2, 204-5

*Llawysgrifau Chirk Castle yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* C. 1-3, E. 51, 53, 558, 6145, 6349

*Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, letters 24, 1635-7

*Llawysgrifau Castell Fonmon* 1 (9, 19-21, 24, 51, 60), deed 1504

*Milborne deeds yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 798

*Catalogue of tracts of the Civil War and Commonwealth period relating to Wales and the Borders, National Library of Wales* (Aberystwyth 1911), passim

E. E. Havill, 'Parliamentary Representation of Monmouthshire' (traethawd M.A.)

Narcissus Luttrell, *A brief historical relation of state affairs from September 1678 to April 1714* (1857), i, 403

*The Journals of the House of Commons*, ix, 756-9

## Darllen Pellach

LIGC: [Badminton Volume 3: This noble survey taken of the seignoye of Chrughoel & Tretowre](#)

[Badminton Estate: A short history of the Estate](#)

## Delweddau

LIGC: [Edward Somerset Earl of Worcester](#)

T. A. Dean, [Henry Somerset, First Marquis of Worcester...](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804778](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

